

2 Fai 2023

Annwyl Riant/Gwarcheidwaid,

### Asesiadau Personol Llythrenedd a Rhifedd (ar-lein)

Ysgrifennwn atoch i hysbysu bydd disgyblion blwyddyn 8 yn cwblhau asesiadau personol llythrenedd a rhifedd ar-lein yr wythnos nesaf (9fed i 12fed o Fai). Mae'r asesiadau yma yn ffocysu ar fedrau llythrenedd a rhifedd, a bydd pob disgybl yn cwblhau 4 asesiad ar-lein yn y meysydd canlynol:

- Cymraeg (darllen)
- Mathemateg: Asesiad gweithdrefnol ac asesiad rhesymu
- Saesneg (darllen)

Bydd disgyblion yn cael cyfle i ymarfer y math o gwestiynau yn ystod eu gwersi yr wythnos hon.

Gweler rhagor o fanylion ar wefan Ilywodraeth Cymru: <https://hwbcymru.net/cwricwlwm-i-gymru/asesiadau-darllen-a-rhifedd/asesiadau-personol-gwybodaeth-i-rieni-a-gofalwyr/>

Mae'r fideo yma hefyd yn crynhoi pwrpas a diben yr asesiadau yma:  
<https://www.youtube.com/watch?v=M187gJQ4Jeg>

Hoffwn bwysleisio nad oes angen i ddisgyblion bryderu am yr asesiadau yma, ond wrth gwrs, anogwn i bawb ymgynghori â'r deunydd paratoi. Gellir cael mynediad at rain wrth fewngofnodi i Hwb a chlicio ar 'Asesiadau Personol'.

Bydd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn y gefnogaeth briodol (ac amser ychwanegol os yn gymwys) fel rhan o'r asesiadau yma. Cofiwch fod yr asesiadau yma yn rhan o fesuriadau cenedlaethol eich plentyn, felly anogwn eu bod yn cymryd o ddifrif ac yn rhoi o'u gorau glas.

Plîs cysylltwch â minnau os hoffech wybodaeth bellach drwy [ShawC36@hwbcymru.net](mailto:ShawC36@hwbcymru.net) neu fanylion cyswllt yr ysgol isod.

Yn gywir,



Mr Chris Shaw (Pennaeth Cynorthwyo)



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwyroedd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

Ebost: [ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk](mailto:ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk)  
[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth : Mr Simon Davies



 BUDDSODDWYR  
MEWN POBL | Aur

 Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales